YSGOL BRYNREFAIL

CANLYNIADAU ARHOLIADAU AS

Ar ddydd Iau 19eg Awst 2010 fe ddaeth canlyniadau arholiadau AS i Ysgol Brynrefail ac fe ddaeth pob disgybl o flwyddyn 12 i dderbyn eu graddau.

Mae'r arholiad AS wedi bod yn ei le am beth amser a rhyw dŷ hanner ffordd rhwng T.G.A.U. a lefel A yw'r AS.

Yn gyntaf y mae'n rhoi syniad, i bob disgybl, ar ddiwedd blwyddyn 12 o'u safonau yn y pynciau y maent wedi dewis eu hastudio tuag at lefel A. Yn ogystal mae'r AS yn rhoi gwybodaeth am y pynciau y maent yn weddol lwyddiannus ynddynt a hefyd am y pynciau hynny sydd angen mwy o astudio a chaboli arnynt. Ond y mae pob marc a enillwyd yn yr arholiad AS yn cyfrif tuag at farciau'r lefel A ar ddiwedd y ddwy flynedd.

Fel y gallwch gredu bu trafod eiddgar rhwng y disgyblion a'i gilydd a thrafod hefyd gydag aelodau o staff yr ysgol.